

---

**8<sup>fed</sup> Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**  
**Dydd Mercher, 3 Chwefror 2016**  
**Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**  
**Cofnodion**

---

### **Aelodau**

Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cyngh. Aaron Shotton – Sir y Fflint, Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dros Gyllid ac Adnoddau  
Cyngh. Anthony Hunt – Torfaen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn dirprwyo ar ran y Cyngh. Bob Wellington)  
Cyngh. Bob Greenland – Sir Fynwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn dirprwyo ar ran y Cyngh. Peter Fox)  
Cyngh. Neil Moore – Bro Morgannwg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cyngh. Andrew Morgan – Rhondda Cynon Taf, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cyngh. Jamie Adams – Sir Benfro, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### **Hefyd yn bresennol**

Cyngh. Wynne Evans – Cadeirydd, Awdurdodau Tân ac Achub, Cymru  
Mr Geoff Petty – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (yn cynrychioli Alun Michael)

### **Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Alex Rawlin – Cynghorydd Arbennig  
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol  
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol  
Judith Cole – Y Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol  
Rob Hay – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol  
Alan Storey – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol (yn gyfrifol am gymryd nodiadau)

### **Swyddogion Llywodraeth Leol**

Steve Thomas – Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Nigel Aurelius – Cyfarwyddwr Cyllid, Torfaen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### **Ymddiheuriadau**

Cyngh. Dyfed Edwards – Gwynedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cyngh. Brendan Toomey – Merthyr Tudful, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cyngh. Bob Wellington – Torfaen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cyngh. Peter Fox – Sir Fynwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

### **Eitem 1 ar yr agenda: Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yr aelodau i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau a restrir uchod.

### **Eitem 2 ar yr agenda: Cofnodion a materion a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol (Papur 1)**

2. Cytunodd yr aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2015 yn adlewyrchiad cywir o'r trafodaethau, a chawsant eu derbyn. Nid oedd unrhyw bwyntiau gweithredu'n codi o'r cyfarfod.

### **Eitem 3 ar yr agenda: Rhaglen Waith yr Is-grŵp Dosbarthu (Papur 2)**

3. Cyflwynodd Rob Hay y papur a oedd yn amlinellu Rhaglen Waith Flynyddol yr Is-grŵp Dosbarthu ar gyfer 2016. Roedd un cyfarfod o'r Is-grŵp Dosbarthu wedi'i gynnal mor belled yn ystod y flwyddyn galendr hon ac roedd y rhaglen wedi'i llunio er mwyn i'r Is-grŵp Cyllid gytuno arni.
4. Ar ran Llywodraeth Leol, croesawodd y Cyngh. Hunt gyfeiriad cyffredinol y rhaglen ar gyfer 2016. Gofynnodd Llywodraeth Leol am i'r rhaglen waith gynnwys ystyriaeth i'r posibilrwydd o ddefnyddio data gwariant hanesyddol yn y model. Cytunwyd y byddai hynny'n cael ei archwilio'n rhan o raglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu, gyda mewnbwn gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru.

**Pwynt Gweithredu:** Dylai'r posibilrwydd o ddefnyddio data gwariant hanesyddol yn y model gael ei archwilio'n rhan o raglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu, gyda mewnbwn gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru.

### **Eitem 4 ar yr agenda: Diweddariad ynghylch y Grŵp Effeithlonrwydd Adnoddau (Papur 3)**

5. Cyflwynodd Reg Kilpatrick y papur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Effeithlonrwydd Adnoddau. Pwysleisiodd fod y Grŵp yn canolbwyntio ar bedwar prif faes – Cynhyrchu Incwm, Trawsnewid Gwasanaethau Cymorth, Meincnodi ac Ad-drefnu Asedau.
6. Cadarnhaodd Mr Kilpatrick fod y Grŵp wedi gweld bod rhywfaint o waith da'n digwydd yn y pedwar categori mewn rhai Awdurdodau. Fodd bynnag, roedd gwaith ymgysylltu ar draws Llywodraeth Leol yn amrywio ac roedd tystiolaeth i ddangos nad oedd rhai Awdurdodau yn fodlon cydweithio â'i gilydd yng nghyswllt rhai agweddau. Roedd Mr Kilpatrick a Steve Thomas (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn cyfarfod â Phrif Weithredwyr yn yr amryw ranbarthau i drafod prosiectau posibl, ac roedd camau gweithredu allweddol eisoes ar y gweill. Yn ogystal, byddent yn gofyn am adborth ynghylch sut yr oedd y grwpiau rhanbarthol yn symud yr agenda drawsnewid yn ei blaen.
7. Roedd y Grŵp Effeithlonrwydd wedi trafod y gwaith meincnodi a'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a dulliau posibl o roi'r rhain ar waith. Cydnabuwyd hefyd bod portffolio mawr o asedau'r sector cyhoeddus ar gael, a oedd yn werth sawl biliwn o bunnoedd, o ystyried Cymru gyfan. Er enghraifft, roedd gwaith ar y gweill yn Rhondda Cynon Taf i glustnodi tir dan berchnogaeth gyhoeddus y gellid nid yn unig

ei werthu ond hefyd ei ddefnyddio yn y dyfodol i hybu amcanion ehangach. Roedd angen ystyried y mathau hyn o gyfleoedd yn ehangach.

8. Cydnabu'r Gweinidog y cynnydd a wnaed gan y Grŵp ond dywedodd fod angen llawer mwy o gefnogaeth gan yr Awdurdodau.
9. Nododd y Cyngh. Adams fod Sir Benfro wedi comisiynu'r gwaith o baratoi adnodd diagnostig i lywio a hybu gweithgareddau ar draws y pedair thema. Roedd yn ymwybodol bod tua hanner yr Awdurdodau yng Nghymru wedi comisiynu ymarferion tebyg.
10. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ddefnyddiol gwybod beth fyddai canlyniad y gwaith hwn. Roedd Adroddiad KPMG, a oedd yn nodi'r potensial i wneud arbedion, yn werthfawr ac yn dangos bod cyfleoedd i'w cael yn barod. Byddai'n help gwybod sut yr oedd y materion hyn yn cael eu symud ymlaen, ac roedd y Grŵp Effeithlonrwydd Adnoddau yn ffordd dda o sefydlu sylfaen adrodd ar gyfer y wybodaeth hon. Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu nodyn.
11. Bu'r Grŵp yn trafod y cyfleoedd a gynigir wrth i rai gwasanaethau gael eu digideiddio. Pwysleisiodd y Gweinidog fod hynny'n elfen greiddiol o'r broses o Drawsnewid Gwasanaethau. Fodd bynnag, nid oedd a wnelo â thechnoleg; roedd a wnelo â dulliau o wella gwasanaethau. Anogodd bob Awdurdod i benodi rhywun yn eu Cabinet i fod yn gyfrifol am symud y mater hwn yn ei flaen, gan bwysleisio'r angen i ddarparu gwasanaethau'n well.
12. Rhoddodd y Cyngh. Shotton a'r Cyngh. Hunt enghreifftiau o waith sy'n digwydd yn eu Hawdurdodau nhw. Estynnodd y Cyngh. Hunt wahoddiad i'r Gweinidog ymweld â Thorfaen i weld y cynnydd a wneir o safbwynt defnyddio cymorth digidol i ddarparu gwasanaethau drwy'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau, yr oedd wedi'i sefydlu gyda Sir Fynwy a Heddlu Gwent. Gwahoddodd y Cyngh. Shotton y Gweinidog i weld y gwaith a wneir yn Sir y Fflint ar rannu ystâd â'r Adran Gwaith a Phensiynau a datblygu canolfannau hollgynhwysol.
13. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig bod y pwyntiau a godwyd yn cyfrannu at ystyriaethau'r Gweithgor Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol y mae'n ei gadeirio gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau.

**Pwynt Gweithredu:** Dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddarparu nodyn ynghylch y defnydd y mae Awdurdodau yn ei wneud o adnoddau diagnostig i lywio a hybu gweithgareddau trawsnewid.

**Pwynt Gweithredu:** Dylai'r pwyntiau a godwyd gyfrannu at waith y Gweithgor Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

## **Eitem 5 ar yr agenda: Diweddariad ynghylch y Setliad Llywodraeth Leol**

14. Cadarnhaodd Rob Hay fod y Gweinidog wedi cyhoeddi'r Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol ar 9 Rhagfyr. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 20 Ionawr ac roedd swyddogion yn ystyried yr ymatebion.
15. Disgwylid i'r Setliad Terfynol gael ei osod gerbron y Cynulliad ar 2 Mawrth a'i drafod ar 9 Mawrth. Gan gadw'r materion ynghylch amseru mewn cof, roedd y Setliad Dros Dro wedi adlewyrchu'r data diweddaraf er mwyn sicrhau cymaint o eglurder ag a

oedd yn bosibl i'r Awdurdodau. Pwysleisiodd y Gweinidog y byddai trafodaethau'n parhau â'r Awdurdodau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu cyn gynted ag a oedd yn bosibl.

**Eitem 6 ar yr agenda: Diweddariad ynghylch Diwygio Llywodraeth Leol, gan gynnwys y Drefn ar gyfer Trafodion Ariannol**

16. Nododd y Gweinidog fod ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a dogfennau ymgynghori cysylltiedig wedi'u cyhoeddi ers cyfarfod diwethaf yr Is-grŵp Cyllid. Byddai'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 15 Chwefror. Roedd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) yn darparu'r ddeddfwriaeth ymbaratoi. Byddai'r canllawiau ynghylch y darpariaethau sy'n atal trafodion amhriodol a defnydd amhriodol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cyhoeddi er mwyn ymgynghori yn eu cylch yn ystod yr haf.

17. Cyfarfu'r Panel Dyfodol Cyllid am yr ail waith ar 1 Chwefror a chytunodd ar raglen waith ar gyfer y cyfnod hyd at hydref 2017. Yn ogystal cafodd y Panel y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Athro Tony Travers yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru.

**Eitem 7 ar yr agenda: Unrhyw fater arall**

18. Nid oedd unrhyw fater arall a chaewyd y cyfarfod.

19. Dyddiad y cyfarfod nesaf – i'w drefnu.